**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**

**13 MEHEFIN 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod o bell ddydd Iau, 13 Mehefin 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)** |
| Y Cynghorwyr: | Tina Claydon, David Coggins Cogan, Bill Crease, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Allan Marshall, Billy Mullin, Vicky Perfect, Jason Shallcross ac Arnold Woolley |
| **YN ARSYLWI:** | Y Cynghorwyr: Helen Brown, Dave Hughes ac Andrew Parkhurst |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor) a Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles) |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorwyr Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol); y Cynghorydd Linda Thomas (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol); Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Uwch-Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) ar gyfer eitem 7; Ymgynghorydd Polisi Strategol ar gyfer eitem 8; Rheolwr Corfforaethol – y Rhaglen Gyfalaf ac Asedau ar gyfer eitem 9; Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol ar gyfer eitem 10; Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg ar gyfer eitem 11 |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm |

**1. PENODI CADEIRYDD (Dolen i'r recordiad)**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cynghorydd Richard Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25.

**2. PENODI IS-GADEIRYDD (Dolen i'r recordiad)**

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Bill Crease yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25.

3. **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

**PENDERFYNWYD:**

Dim.

4. **COFNODION (Dolen i’r recordiad)**

Dywedwyd y dylid cynnwys y Cynghorydd Coggins Cogan yn y rhestr gylchredeg ar gyfer y cam gweithredu dan rif 81 (Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Werth Cymdeithasol), gan ei fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Cymeradwywyd y cofnodion, yn amodol ar gywiro paragraff cyntaf cofnod rhif 81.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad, bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2024 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU (Dolen i’r recordiad)**

Cyflwynodd Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad am gynnydd camau gweithredu cyfarfodydd blaenorol. Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi’r cynnydd sydd wedi’i wneud.

6. **RHAGLEN WAITH (Dolen i’r recordiad)**

Cyflwynodd Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Waith i’w hystyried.

Nodwyd fod pryderon ynghylch argaeledd polisïau penodol ar wefan y Cyngor yn destun archwiliad gan y Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Yn ogystal, cytunodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) i atgoffa prif swyddogion y dylid diweddaru’r wybodaeth am eu portffolios ar y wefan.

Gofynnodd y Cadeirydd a yw’n bosibl rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am ofal a ariennir ar y cyd a Chynllun y Cyngor ar y Rhaglen Waith bob chwarter.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo’r Rhaglen Waith;

(b) Rhoi awdurdod i’r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio’r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried cais i raglenni'r pwyllgor hwn gynnwys eitem bob yn ail cyfarfod i alluogi'r Aelodau Cabinet perthnasol i ateb cwestiynau gan Aelodau.

**7. PECYNNAU GOFAL A ARIENNIR AR Y CYD – ADRODDIAD GYDA'R WYBODAETH DDIWEDDARAF (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd yr Uwch-reolwr (Diogelu a Chomisiynu) adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddyled hirdymor gyfredol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) mewn perthynas â darparu pecynnau Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn Sir y Fflint.

Yn dilyn trafodaeth, ailadroddodd y Cadeirydd y pryderon ynghylch nad yw'r broses apelio yn caniatáu cynrychiolaeth gan yr awdurdod lleol a mynegodd y dylai'r Pwyllgor, efallai, fyfyrio ar hyn yn ystod y diweddariad nesaf.

Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa o ran anfonebau Gofal Iechyd Parhaus sydd heb eu talu i'r Cyngor gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**8. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL AR Y GYMRAEG (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol adroddiad ar gynnydd y Cyngor wrth gydymffurfio á Safonau'r Gymraeg a nodi meysydd ar gyfer cynnydd a gwelliant pellach.

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd, byddai Aelodau Cabinet perthnasol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd pan gyflwynir adroddiadau yn eu henwau.

Cefnogwyd yr argymhellion ynghyd â chynnig ychwanegol.

**PENDERFYNWYD:**

a) Cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol drafft ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023/24;

b) Bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud cynnydd tuag at fodloni gofynion statudol Hysbysiad Comisiynydd y Gymraeg; a

c) Bod yr Ymgynghorydd Polisi Strategol yn cysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i sicrhau bod gwybodaeth am hyfforddiant a mentrau datblygu yn cael eu hanfon at bob aelod etholedig i hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

9. **ARCHWILIO CYMRU – ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB: MWY NAG YMARFER BLWCH TICIO (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol – y Rhaglen Gyfalaf ac Asedau a'r Ymgynghorydd Polisi Strategol adroddiad ar gynnydd y camau gweithredu yn sgil adroddiad Archwilio Cymru ar ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng Nghymru.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd wrth roi argymhellion Archwilio Cymru yn "Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag ymarfer blwch ticio?" ar waith.

10. **DIWEDDARIAD DIWEDD BLWYDDYN AR GYFLOGAETH A'R GWEITHLU (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd Reolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol adroddiad yn cynnwys data am y gweithlu a'r dadansoddiad o'r sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 2023/24.

Yn ystod y drafodaeth, eglurodd y Rheolwr Corfforaethol y gyfradd absenoldebau a chytunodd i ddarparu ymateb dilynol o ran a yw'r cyfrifiadau a'r cyfraddau cyfwerth â llawn amser yn gysylltiedig â nifer y gweithwyr neu nifer y swyddi sydd ar gael. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth am y cyfrifiad a ddefnyddiwyd i nodi'r dyddiau a gollwyd ac yn cysylltu â'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol i gasglu data'r sefydliad ar nifer y dyddiau a gollwyd yn sgil swyddi heb eu llenwi ar draws y portffolios i'w rhannu gyda'r Pwyllgor. Mewn ymateb i'r sylwadau, cytunodd i gynnwys esboniad mewn adroddiadau pan nad yw targedau presenoldeb a gwariant ar staff asiantaeth wedi'u cyrraedd, ynghyd â chyfeiriad at y broses o werthuso perfformiad.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2023/24 ar y Gweithlu

11. **DEFNYDDIO GWYBODAETH AM BERFFORMIAD: SAFBWYNT DEFNYDDWYR GWASANAETH A CHANLYNIADAU (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd Prif Swyddog (Llywodraethu) a Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg adroddiad ar gynnydd y camau gweithredu yn sgil adolygiad Archwilio Cymru.

Nodwyd y byddai'r Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor.

Diwygiwyd yr argymhelliad i adlewyrchu'r drafodaeth hon.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried yr ymateb i'r argymhellion ar gyfer gwella, bod y Pwyllgor yn darparu'r sylwadau canlynol i'r Cabinet:

(a) Mewn perthynas â phenderfyniadau gwasanaeth a pholisi allweddol, yn cynnwys unrhyw newid i wasanaethau, bod adroddiadau'n cynnwys safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ar y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd; a

(b) Bod y Cabinet yn ystyried cynnwys arolwg blynyddol o farn defnyddwyr gwasanaeth am berfformiad y Cyngor, tua mis Ebrill o bosibl wrth anfon biliau Treth y Cyngor.

## 12. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.45pm)

**Y Cadeirydd**

……………………………………………………

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home